



BYDDWCH FENTRUS ENTERPRISING

**CYLLID I
GYCHWYN
BUSNES
ER MWYN
GWIREDDU
EICH SYNIADAU!**





GWNEWCH GAIS I'R GRONFA SBARDUNO MENTER!







Mae'r Gronfa Sbarduno Menter yn darparu grantiau gwerth hyd at £5,000 i unigolion neu dimau cymwys sydd ag angen clir, gwirioneddol am gyllid i symud ymlaen gyda syniad/cyfle busnes newydd. Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid i helpu i lansio neu fwrw ymlaen â syniad busnes neu fenter lawrydd.

Mae'r grant yn hyblyg a gellir ei ddefnyddio i dalu am unrhyw beth a fydd yn rhoi hwb i'r syniad busnes, e.e. cymorth cyfrifeg, aelodaeth broffesiynol, offer hanfodol.

CYMHWYSEDD



-  Rhaid bod yn fyfyrwr cyfredol neu wedi graddio o Brifysgol Bangor
-  Rhaid cael syniad/cyfle busnes datblygedig neu newydd
-  Gellir gwneud cais fel unigolyn neu fel rhan o dîm (dim ond un cais fesul syniad neu fusnes fydd yn cael ei ystyried)
-  Rhaid meddu ar ganiatâd mewnfudo angenrheidiol i gymryd rhan mewn gweithgaredd busnes yn y Deyrnas Unedig

Nid oes rhaid i ymgeiswyr gofrestru eu busnes ond rhaid iddynt ymrwymo i brofi a lansio eu syniad busnes cyn pen 6 mis ar ôl cael arian gan y gronfa. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gysylltu â Byddwch Fentrus am gymorth.





SUT I WNEUD CAIS?

Mae'r gronfa hon yn gyfyngedig, a bydd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo gan banel ar sail effaith gadarnhaol y dyfarniad ar ddechrau'r busnes neu ddechrau masnachu.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais, rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn trefnu apwyntiad mentora un-i-un gyda'n Cydlynnydd Dechrau Busnes i Raddedigion i roi'r cyfle gorau i'ch cais lwyddo. Cysylltwch â Byddwch Fentrus i drefnu apwyntiad neu am fwy o wybodaeth.

Ariennir y gronfa yn rhannol gan Brifysgolion Santander trwy eu partneriaeth â Phrifysgol Bangor.






CYSYLLTWCH Â NI

Mae Byddwch Fentrus yn ymroddedig i gefnogi myfyrwyr a graddedigion Prifysgol Bangor i ddatblygu eu sgiliau menter neu i ddechrau mentrau cymdeithasol neu eu busnesau eu hunain neu i ddechrau ar yrfa yn gweithio ar eich liwt eich hun.

Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at **b-enterprising@bangor.ac.uk**

CEWCH RAGOR O WYBODAETH AM Y GEFNOGAETH SYDD AR GAEL YMA

my.bangor.ac.uk/employability-info/b-enterprising.php.cy



@PBcyflogadwyedd



Cyflogadwyedd Prifysgol Bangor



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

